

GOFALU AM NATUR

Dydy poeni ddim yn datrys unrhyw broblem! Dydy siarad ddim yn mynd i achub y blaned! Gadewch i ni weithredu'n gadarnhaol! Gweithgarwch dynol sydd wedi niweidio'r amgylchedd naturiol, gan danseilio ei allu i ddarparu pethau llesol hanfodol i bobl.

Ein dyletswydd ni, felly, yw dadwneud y drwg!

OND SUT?

1 Dewis cynhyrchion sy'n cael eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n garedig i'r amgylchedd. Cadwch lygad am labeli sy'n dangos bod y byd naturiol wedi cael ei ystyried wrth greu'r cynnyrch - er enghraifft, pysgod wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol a chynnyrch pren wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth.

2 Lleihau gwastraff. Mae popeth a brynwch yn effeithio ar yr amgylchedd mewn rhyw ffordd, felly gall peidio gwastraffu pethau helpu. Er enghraifft, gallwch wastraffu llai o fwyd, peidio â newid eich ffôn symudol mor aml, ac osgoi gormod o becynnau a phlastig.

3 Dewis cynhyrchion sy'n cynnwys llai o gemegion a allai fod yn niweidiol. Does dim rhaid wrth gemegion i lanhau eich cartref. Gallech wneud eich cynhyrchion glanhau eich hun o gynhwysion y byddwch yn eu defnyddio o ddydd i ddydd, fel sudd lemwn a finegr.

4 Cael gwared ar wastraff yn ddiogel. Pan mae'n bryd cael gwared ar rywbeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hynny'n ofalus ac yn ddiogel. Er enghraifft, mae llawer o eitemau electronig yn cynnwys cemegion a all niweidio systemau naturiol os na chânt eu gwaredu'n iawn.

5

Gardd ar gyfer bywyd gwyllt. Mae gerddi'n darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt. Mae'r oddeutu 15 miliwn o erddi ym Mhrydain yn helpu i ddarparu noddfa i anifeiliaid sy'n prysur golli eu cartrefi naturiol yng nghefn gwlad. Mae sicrhau lle i fywyd gwyllt yn eich gardd, osgoi compost sy'n cynnwys mawn a pheidio â defnyddio plaladdwyr yn help. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er enghraifft, bolisi i beidio â defnyddio mawn.

6

Ceir llawer o gyfleoedd i fynd allan i'r awyr agored a threulio amser mewn man gwyrdd, hyd yn oed os ydych yn byw yng nghanol dinas. Mwynhau'r byd naturiol yn eich ardal a chymryd rhan. Gallwch hefyd gyfrannu mwy drwy wirfoddoli i helpu'r amgylchedd, drwy greu man gwyrdd newydd yn eich cymuned. Mae'n bosibl helpu trwy gofnodi anifeiliaid a phlanhigion yn eich ardal.

7

Lleisio'ch barn. Mae llawer o fudiadau sy'n gweithio i ddiogelu bywyd gwyllt yn cynnig cyfleoedd i bobl gyfrannu neu ddangos eu cefnogaeth. Mae'r Cyswllt Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (*Wildlife and Countryside Link*) yn grŵp ymbarél i fudiadau sydd, gyda'i gilydd, yn cael cefnogaeth 8.5 miliwn o bobl yn y DU. Gallwch hefyd wneud yn siŵr bod y bobl sy'n eich cynrychioli, fel eich Aelod Cynulliad a'ch Aelod Seneddol, yn ystyried eich pryderon am yr amgylchedd.

8

Osgoi prynu anrhegion wedi'u gwneud o blanhigion neu anifeiliaid sydd dan fygythiad. Mae rhai anrhegion a bwydydd sydd ar gael mewn gwledydd penodol yn cael eu gwneud o blanhigion neu anifeiliaid sydd dan fygythiad, er enghraifft, croen anifeiliaid, ifori, tegeirian, cwrel. Pan fyddwch yn prynu rhywbeth, mae'n anodd gwybod a yw dan fygythiad. Holwch cyn i chi fynd i ffwrdd, ond os oes gennych amheuaeth, peidiwch â phrynu anrhegion sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid na phlanhigion.

